# Asesiad Risg gofod3 2025

**Dyddiadau**: 2 Gorffennaf 2025 **Lleoliad:** Stadiwm Dinas Caerdydd

**Asesiad wedi'i gwblhau gan:** Y Tîm Digwyddiadau a Dysgu

**Dyddiad yr Asesiad:** 12/06/2025

## Allwedd Coch Oren Gwyrdd (COG)

- Coch = Risg uchel – *angen ei lliniaru ar unwaith*
- Oren = Risg ganolig – *camau lliniaru wedi'u cymryd, monitro*
- Gwyrdd = Risg isel – *wedi'i rheoli'n dda*

## Tabl Asesu Risg

| Perygl a chanlyniad posibl | Pobl mewn perygl | Mesurau rheoli | Mesurau ychwanegol | Cam gweithredu, gan bwy a phryd | COG |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Diogelwch a chyfrifoldebau | Cynrychiolwyr, Staff, Contractwyr | Ymweliad safle cyn y digwyddiad, asesiad risg ffurfiol, wedi cadarnhau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus (YAC). Wedi gofyn am YAC ac asesiadau risg a datganiadau dull contractwyr. | Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch clir wedi'u cyfathrebu drwy friffiau staff. Arwyddion diogelwch gweledol ar bwyntiau allweddol. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau – Parhaus; gwiriad terfynol noson 1/7 | Oren |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llithro, baglu a chwympo | Pawb | Arwynebau'r lleoliad wedi'u hasesu; ceblau wedi'u tapio; bariau neu arwyddion wedi'u defnyddio yn ôl yr angen. | Cerdded drwy'r lle cyn y digwyddiad i sicrhau bod llwybrau'n glir. Defnyddio gorchuddion cordiau. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau / Lleoliad / Contractwyr – Archwiliad terfynol 2/7 | |
| Diffygion mewn cyfarpar a thoriadau trydan | Cynrychiolwyr, Staff, Contractwyr | Holl gyfarpar wedi'i hurio gan gyflenwyr proffesiynol. Defnyddio cyfarpar sydd wedi cael prawf dyfeisiau cludadwy yn unig. | Archwiliad gweledol o'r holl gyfarpar AV cyn eu defnyddio. Sicrhau bod gosodiadau sefydlog y lleoliad wedi'u hardystio. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau / Contractwyr – Parhaus tan 2/7 | |
| Codi a chario | Staff, Contractwyr | Ceisio osgoi lle'n bosibl. Troliau yn cael eu defnyddio. Ymwybyddi-aeth o godi a chario wedi'i rhannu yn y sesiwn friffio. | Cadarnhau bod digon o staff i baratoi popeth. Sicrhau nad oes unrhyw un yn codi cyfarpar trwm ar eu pennau eu hunain. | Rheolwr dysgu a digwyddiadau – sesiwn friffio cyn y digwyddiad 1/7 | |
| Trefniadau mewn argyfwng a chymorth cyntaf | Pawb | Swyddogion cymorth cyntaf y stadiwm ar y safle; swyddogion cymorth cyntaf CGGC ar gael*. | Nodi lleoliad/dull cysylltu â swyddogion cymorth cyntaf yn ystod y sesiwn friffio; desg wybodaeth yn ymwybodol o'r protocol. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau – sesiwn friffio 2/7 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch contractwyr | Pawb | Gofyn am asesiadau risg, yswiriant, datganiadau dull contractwyr. | Contractwyr yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig am ddiogelwch a gweithdrefnau mewn argyfwng. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau – cyn y digwyddiad | |
| Diogelwch tân | Pawb | Allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir. Gweithdrefn dân y lleoliad wedi'i dosbarthu. System gyhoeddi ar gael. | Gweithdrefn gadael ar frys wedi'i hymarfer yn y sesiwn friffio cyn y digwyddiad. Arwyddion wedi'u harddangos ym mhob ystafell. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau –cyn y digwyddiad | |
| Rheoli'r dorf | Pawb, gan gynnwys unigolion adnabyddus | Capasiti (600) ymhell o fewn terfynau'r stadiwm. System gyhoeddi a stiwardio yn ei lle. Diogelwch ychwanegol wedi'i bennu i fynychwyr adnabyddus. | Gwirio bod allanfeydd tân heb eu cloi. Monitro lefel y dorf mewn amser real. Stiwardiaid a thîm diogelwch wedi'u briffio ar y risgiau y gwyddys amdanynt. Staff diogelwch wedi'u gosod yn ddisylw wrth y fynedfa. Wedi rhoi gwybod i staff y dylent uwchgyfeirio unrhyw | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau / Lleoliad – cerdded drwyddo am y tro olaf 2/7 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | weithgareddau amheus. | | |
| Arlwyo a lluniaeth | Cynrychiolwyr, Staff, | Arlwyo wedi'i ddarparu gan gontractwr cymeradwy. Cynhwysion y gallai pobl fod ag alergedd iddo wedi'u labelu'n glir. | Darparu cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch alergedd bwyd. Sicrhau ardystiad hylendid y cyflenwr. | Lleoliad / Contractwr arlwyo – cyn y digwyddiad | |
| Hygyrchedd a chynhwysiant | Mynychwyr anabl, unigolion niwroamrywiol | Lleoliad yn gwbl hygyrch. Toiledau hygyrch. System gyhoeddi yn cefnogi dolen sain. | Darparu lle tawel; amserlen weledol; canllawiau i staff ar niwroamrywiaeth. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau – gwaith gosod cyn y digwyddiad | |
| Risg COVID/ôl-pandemig | Pawb | Awyru da; gorsafoedd diheintio. | Polisi hunansgrinio ymlaen llaw. Cofrestru di-gyffwrdd pan fo'n bosibl. | Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau / Lleoliad – Gosodiad + chyfathrebiadau cyn y digwyddiad | |
| Technoleg ddim yn gweithio (AV/Wi-Fi) | Mynychwyr, Cyflwynwyr | Profi'r offer AV cyn y digwyddiad. Rhwydweithiau wi-fi segur; cymorth TG ar y safle. | Argraffu ychydig o ddeunyddiau wrth gefn. Defnyddio gyriant a rennir yn y cwmwl ar gyfer mynediad. | Contractwr AV / Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau – Bore'r 2/7 | |
| Preifatrwydd data (GDPR) | Mynychwyr, Arddangoswyr | Dim casglu data sensitif heb ganiatâd. Defnyddio | Adolygu prosesau cyson; arddangoswyr | Tîm CGGC / arddangoswyr – cyn y digwyddiad | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ffurflenni cwmwl diogel. | wedi'u briffio ar GDPR. | | |
| Diogelwch wrth weithio ar uchder / gosod pethau | Contractwyr, Staff y lleoliad | Dim ond contractwyr cymwys sy'n cael gosod cyfarpar. Defnyddir harneisiau pan fydd angen. | Sicrhau bod datganiadau dull, asesiadau risg a datganiadau dull wedi'u derbyn ar gyfer unrhyw dasgau risg uchel. | Contractwyr / Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau – Cyn gosod ar 2/7 | |
| Symudiad cerbydau wrth lwytho i mewn/allan | Staff, Contractwyr | Man llwytho dynodedig sy'n cael ei reoli gan y lleoliad. Amserau cludo cyfnodol. | Dim mynediad i gerddwyr pan fydd faniau yn llwytho. Dillad diogelu personol â lliw amlwg yn cael eu gwisgo. | Lleoliad / Rheolwr Dysgu a Digwyddiadau – Gosod a thynnu pethau i lawr | |

*Swyddogion cymorth cyntaf CGGC:

*Tracey Lewis, Mandy Harvey-Cooke, Hannah Lewis, Matt Brown, Sara Sellek, Rajma Begum a Rhodri Jones*